**Uned 14**

# Niwmonia mewn Gwartheg a Defaid

## Taflen Wybodaeth

Mae niwmonia'n gallu amrywio o ysgafn i ddifrifol, a gall fod yn farwol.

Nid oes un cyflwr mewn gwartheg a defaid y gellir ei alw'n niwmonia.

Fel arfer, mae'r cyflwr yn ganlyniad i gyfuniad o ffactorau rhagdueddol ar fferm e.e. amodau ffisegol, straen ffisiolegol a phathogenau.

Gellir dosbarthu niwmonia yn llym neu'n gronig.

Clefyd **llym** yw clefyd â naill ai un neu ddau o'r canlynol:

1. dechrau sydyn
2. hyd byr (mewn cyferbyniad â chwrs cronig).

Mae clefyd **cronig** yn glefyd sy'n para'n hir neu'n dod yn ôl.

### Mathau o Niwmonia

**6 prif fath:**

iii) firaol
iv) mycoplasmaidd
v) bacterol
vi) parasitig
vii) ffwngaidd-mycotig
viii) heb fod yn heintus – cael ei achosi'n fecanyddol e.e. dosio/tiwbiau stumog

### Niwmonia mewn Gwartheg

Mae gwartheg ifanc mewn mwy o berygl oddi wrth niwmonia

### Achosion Niwmonia mewn Lloeau

**1. Firaol**

- *RSV*- firws syncytiol resbiradol
- *PI3* - firws paraffliw
- *IBR* - rhinotraceitis heintus y gwartheg
- *BVD* - dolur rhydd firaol y gwartheg
- Coronafirws.

**2. Bacterol**

- Pasteurela multocida a Manheimia hemolytica  (Pasteurela hemolytica yn flaenorol)
- Actinomysau pyogenaidd

  .

**3 Parasitig**

- Broncitis Parasitig achosir gan lyngyr yr ysgyfaint neu hach

**4. Mycoplasma**

**Niwmonia mewn Defaid**

Gall niwmonia mewn ŵyn gael ei achosi gan

- bacteria
- mycoplasma
- firws
- parasit mewnol.

1. **Achosion Bacterol**

Mae Pasteurelosis yn cael ei achosi gan ddau facteriwm

- Manheimia hemolytica (Pasteurela hemolytica yn flaenorol)
- Pasteurela trehalosi.

2. **Achosion Firaol**

Gal 5 math o firws achosi niwmonia mewn defaid
.

- *PI3* - firws paraffliw
- *RSV*- firws syncytiol resbiradol
- Adenofirysau
- *MV* - maedi visna
- *OPA* - Adenocarsinoma Ysgyfeintiol Defeidiog (a elwir yn Jaagsietke).

3. **Parasitig**

Mae llyngyr yr ysgyfaint yn gallu achosi broncitis parasitig ac weithiau niwmonia mewn defaid ifanc yn ystod yr haf a'r hydref. Fe'i hachosir gan y llyngyr main - Dic*tyocaulus filarial.*

**Ffactorau Rhagdueddol**

Ffactorau fferm yw'r rhain sy'n arwain at anifail ifanc yn datblygu niwmonia pathogenaidd. Nid yw'r rhain ar bennau eu hunain yn 'achosi' niwmonia:

- awyriad gwael i loeau dan do
- amodau llaith ac oer
- newidiadau sydyn yn nhymheredd yr aer
- straen oherwydd achosion gwahanol
- cymeriant annigonol colostrwm
- colostrwm o ansawdd gwael
- lloi ifanc o wahanol lefydd yn cymysgu
- mae lloi sydd wedi dioddef o ddolur rhydd hefyd yn fwy tebygol o ddioddef o glefyd yr ysgyfaint.

**Symptomau Cyffredinol Niwmonia**

- rhedlif dyfrllyd o'r trwyn
- colli archwaeth
- dim diddordeb mewn lloeau eraill
- peswch sych
- cyfradd resbiradu gyflymach
- tymheredd wedi codi'n uwch na 39 gradd Celsius.

Mae gan gyflyrau penodol symptomau arbennig e.e. *IBR*, Hach, Pasteurela